# Grŵp trawsbleidiol ar bobl hŷn a heneiddio

5 Chwefror 2014, Ystafell Gynadledda Ystafell 24, Tŷ Hywel

## Nodyn o'r cyfarfod ar dlodi tanwydd

| **Yn bresennol** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Mike Hedges AC - CADEIRYDD | Bethan Jenkins AC |
| Darren Millar AC | David Melding AC |
| Keith Davies AC | Simon Thomas AC |
| Mark Isherwood AC | Cathrin Manning, Y Groes Goch |
| Steve Cushen, Staff Cymorth (Mike Hedges AC) | Andrew Reagan, Dyfodol Defnyddwyr |
| Nicholas Wall, Staff Cymorth (Mike Antoniw) | Christine Price, Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol |
| Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro | Ruth Crowder, Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| Monika Hare, Rhwydwaith Pobl Hŷn a Heneiddio (OPAN) Cymru | |
| Jackie Radford Staff Cymorth (Aled Roberts AC) | |
| Andrew Bell, AGGC | |
| Emily Warren, CLlLC | |
| Phil Evans, ADSS Cymru | |
| John Vincent, Senedd Pobl Hŷn Cymru | |
| Phyllis Preece, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru | |
| John Davies, Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru | |
| Nancy Davies, Fforwm Pensiynwyr Cymru | |
| Phil Vining, Age Connect | |
| Neil Williams, Gofal a Thrwsio Cymru | |
| Iwan Williams, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | |
| Carole Morgan-Jones, NEA Cymru a Chyd-gadeirydd Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru | |
| Lee Parry, Pennaeth Nyth – Ynni Cymunedol, Nwy Prydain | |
| Graeme Francis, Age Cymru | |
| Gerry Keighley, Age Cymru | |
| Laura Nott, Age Cymru - YSGRIFENNYDD | |

**Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd Mike Hedges AC bawb i'r cyfarfod a dywedodd pwy oedd wedi ymddiheuro.

**Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cytunwyd y byddai Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei gynnal ar 7 Mai 2014.

**Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

Cadarnhaodd Mike Hedges fod y tri cham gweithredu cyntaf wedi'u cwblhau. Soniodd yn fras am y llythyr a anfonwyd ato gan y Farwnes Jenny Randerson, fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, ynglŷn â chyfarfod i drafod ymdrechion i dwyllo ac Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad (NCCZ). Cadarnhaodd Mike ei fod wedi siarad â'r Farwnes Jenny Randerson a chytunodd fod angen i bawb wneud rhagor i hyrwyddo Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad. Dywedodd Mike ei fod yn teimlo y dylai Cymru gyfan, yn hytrach na dim ond rhanbarthau penodol, fod yn Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad.

Gofynnodd Phyllis Preece a oedd unrhyw ffordd y gallem ehangu'r ardaloedd hyn? Dywedodd Mike Hedges nad oedd Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad mewn llawer o awdurdodau lleol, ond rydym yn ystyried dynodi Cymru gyfan yn Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad. Dywedodd Phyllis fod angen llai siarad llai a gwneud mwy. Mae'r ffaith bod dadl fer ar 5.02.14 a bod Datganiad Barn wedi'i gyhoeddi, yn dangos bod y Llywodraeth yn gefnogol i'r syniad ac roedd wedi bod yn siarad â'r Gweinidog Llywodraeth Leol, Lesley Griffiths, a oedd yn awyddus iawn i wneud mwy.

**Cyflwyniad gan Carole Morgan-Jones, NEA Cymru a Cydgadeirydd Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru**

Gofynnodd Carole Morgan-Jones i'r grŵp faint roeddent yn ei wybod am NEA Cymru cyn rhoi golwg cyffredinol ar yr elusen a'r prif agweddau ar ei gwaith. Elusen yw NEA sy'n ceisio dod â thlodi tanwydd i ben a sicrhau gwres fforddiadwy i bawb. Cafodd ei sefydlu 30 mlynedd yn ôl a chaiff Cymru ei chynrychioli gan NEA Cymru. Esboniodd Carole y caiff tlodi tanwydd ei ddiffinio fel yr angen i wario dros 10% o incwm y teulu ar danwydd i sicrhau bod y cartref yn ddigon cynnes a chyfforddus ac os oes angen gwario 20% o incwm i wneud hynny, bernir bod y teulu mewn tlodi tanwydd difrifol. Yn 2012, amcangyfrifwyd bod 30% o deuluoedd Cymru mewn tlodi tanwydd.

Rhoddodd Carole hefyd fraslun o'r gwaith y mae NEA Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd;

- Darparu hyfforddiant mewn dyledion tanwydd i 379 o ymgynghorwyr a gweithwyr cymuned rheng flaen drwy gyfrwng y Prosiect Mentora a Dyledion Tanwydd a noddir gan SWALEC. Bydd y prosiect yn galluogi ymgynghorwyr i roi cymorth ymarferol i gwsmeriaid sydd mewn dyled.
- Prosiect Calor i helpu cymunedau yng nghefn gwlad Cymru sy'n dioddef oherwydd tlodi tanwydd

- Prosiect Solar Casnewydd
- Partneriaethau Tlodi Tanwydd gyda datblygwyr fferm wynt West Coast Energy
- Grŵp Rhanddeiliaid Nyth
- Newid cyflenwr ar y cyd - cefnogi 'Cyd Cymru-Wales Together',
- Hyfforddiant arbed ynni a thlodi tanwydd
- Fforymau Tlodi Tanwydd
- Cynhadledd Tlodi Tanwydd Cymru – 27 Mawrth 2014, Caerdydd
- Cynghrair Tlodi Tanwydd, y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd

Rhoddodd Carole fraslun hefyd o waith ymgyrchu Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru. Mae'r Gynghrair wedi datblygu rhai mentrau allweddol:

- Sicrhau cartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon - safonau sylfaenol
- Gwella iechyd drwy gartrefi cynnes – Cynllun Tywydd Oes Cymru
- Grymuso Defnyddwyr
- Ailgylchu trethi carbon

Esboniodd Carole fod trechu tlodi tanwydd yn rhan o gynlluniau ehangach Llywodraeth Cymru i 'Drechu Tlodi' ond roedd gormod o bwyslais ar Nyth ac arbed fel yr unig ddull o ymdrin â thlodi tanwydd yng Nghymru. Mae strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru wedi dyddio a does dim cynllun gweithredu i ddangos sut y maent yn bwriadu dileu tlodi tanwydd erbyn 2018. Yn ogystal â hyn, Cymru yw'r unig wlad yn y DU erbyn hyn heb Grŵp Cynghori Gweinidogol. Roedd angen i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried sut i gynnwys dyledion tanwydd mewn gwasanaethau cynghori.

Dywedodd Carole hefyd fod rhai cyflenwyr ynni, gan gynnwys SWALEC a Nwy Prydain, wedi rhoi'r gorau i gysylltu'n ddiwahoddiad â chwsmeriaid.

**Cyflwyniad gan Lee Parry, Pennaeth Nyth**

Cafwyd cyflwyniad ar raglen Nyth gan Lee Parry ac esboniodd mai cynllun a noddir gan Lywodraeth Cymru yw hwn i helpu pobl sydd mewn tlodi tanwydd drwy gymryd camau i sicrhau bod eu cartrefi'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Gall Nyth gynnig gwahanol fathau o gymorth sy'n amrywio o fesurau i wella cartrefi, sicrhau bod pobl yn hawlio budd-daliadau dyledus a'u cyfeirio at gyrff eraill a allai eu helpu.

Rhestrodd Lee rai ystadegau yn dangos effaith y rhaglen, sef:

- Mae 45% o'r rhai a gaiff eu cyfeirio dros 65 oed
- Mae 3000 o bobl wedi dechrau hawlio budd-daliadau a oedd yn ddyledus iddynt
- Mae hyn wedi cynhyrchu gwerth £2000 o fudd-daliadau i bobl hŷn ar gyfartaledd
- Maent yn cydweithio â chyflenwyr ar hyn o bryd i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am y rhaglen
- Cafodd dros 5000 o gartrefi drwy Gymru eu gwella eleni
- Mae tua 45% o'r cartrefi a gafodd eu gwella yn cynnwys pobl hŷn ac mae hanner y rhain dros 75 oed

- Mae 12,500 o gartrefi wedi cael cymorth gan Nyth ers i'r cynllun ddechrau
- Mae ganddynt berthynas gref â 35 o gyrff ledled Cymru gan gynnwys Age Cymru a Mencap, i helpu i gyrraedd cwsmeriaid

**Cwestiynau**

**Phyllis Preece –** nid yw pobl hŷn yn hoffi newid, er enghraifft, cyfrifiaduron, mae gen i un ond dydw i ddim yn ei ddefnyddio. Mae pobl hŷn am gal gwybodaeth glir a syml gan fod yr anghyfarwydd yn codi ofn arnynt.

**Carole Morgan-Jones –** mae ynni'n gymhleth. Mae Ofgen wedi'i gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni leihau nifer y tariffau i bedwar am bob tanwydd gwahanol, ond nid yw hyn yn hawdd ei ddeall chwaith.

Mae'n anodd ennyn diddordeb pobl hŷn yng Nghymru ac nid ydynt yn fodlon ymuno â chynlluniau eraill. Fodd bynnag, maent yn ymddiried mwy mewn cynlluniau awdurdodau lleol.

**Darren Millar AC –** rwy'n pryderu'n arw mai dim ond traean o bobl rydym yn eu cyrraedd ac mai dim ond 12,000 y mae Nyth wedi'u cyrraedd ers 2011 a dim ond pedair blynedd sydd ar ôl i ddileu tlodi tanwydd. Does dim gobaith cyrraedd y targed.

**Mike Hedges AC -** o gofio na fydd cyfarfod gweinidogion yn cael ei gynnal yn awr ac nad oes unrhyw fesurau eraill ar waith, nid yw'n ymddangos bod tlodi tanwydd yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Felly, o ran y grŵp trawsbleidiol, gallwn wneud gwahaniaeth - pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu targedu?

**Mark Isherwood AC -** nid yw hon yn broblem newydd. Byddwn yn trafod taliadau tlodi tanwydd gyda chyrff ar draws y bwrdd yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd - mae croeso i chi ymuno. Mae arfer da ac arfer gwael - mae galw am Grŵp Gweinidogol ond mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod yn rhaid i dlodi tanwydd fod yn rhan o gyfrifoldeb Alun Davies AC, ond mae'n llawer mwy cymhleth na hynny. Mae Sir Ddinbych wedi lansio cynllun newydd i godi ymwybyddiaeth, ac mae awdurdod lleol Sir y Fflint a llywodraeth leol yn gweithio mewn partneriaeth i weithredu'n fwy lleol.

**Lynda Wallis –** beth y mae'r cynghorau'n ei wneud? Byddwn yn trafod y materion hyn yn aml, ond mae 3-4000 o bobl hŷn yn marw o hyd – mae angen i ni wneud rhagor.

**Emily Warren –** gan ganolbwyntio ar y wybodaeth a gaiff ei rhannu â phobl hŷn, mae Llywodraeth Cymru yn mapio'r wybodaeth sydd ar gael a bydd un man mynediad i bobl sydd wedi'u hynysu a phorthol gwybodaeth. Caiff gwybodaeth ei rhannu yn ystod y cyfarfod nesaf.

**Mike Hedges AC -** os ydych yn dlawd, rydych yn talu mwy. Mae Cymunedau'n Gyntaf yn gweithio ar hyn ond mae angen ei gydlynu. Mae'r naill ochr i Abertawe yn wael a'r llall yn dda - mae gwahaniaeth gwirioneddol ledled Cymru.

**Mark Isherwood AC -** mae Cynlluniau Gwobrau Iechyd yr NEA a Llywodraeth Cymru yn cael eu cysylltu'n gychwynnol â phobl hŷn sy'n agored i niwed. Gall pobl ddefnyddio'r cynllun hwn os nad ydynt yn gymwys i fanteisio ar gynlluniau eraill.

**Carole Morgan-Jones –** rydym hefyd yn gweithio gyda Chymunedau'n Gyntaf i hyfforddi gwirfoddolwyr i fod yn hyrwyddwyr arbed ynni, ac rydym wedi cyflwyno digwyddiadau cymunedol yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, ond gall fod yn anodd ennyn diddordeb pobl yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan awdurdodau lleol gynlluniau amrywiol, ond mae diffyg cefnogaeth i'r rheini sy'n gweithio arnynt ac nid ydynt yn seiliedig ar flaenoriaethau.

Porthol ynni – mae'n bwysig chwilio am wybodaeth ar-lein, ond does dim modd i rai pobl hŷn wneud hynny, felly rydym am roi gwasanaeth wyneb yn wyneb iddynt.

**Lee Parry -** ychydig iawn o bobl hŷn, yn hanesyddol, sy'n newid cyflenwr ynni, a bydd llawer yn aros gyda'r un cyflenwr am flynyddoedd. Mae hyn yn gyffredin iawn - drwy gynnal adolygiad o'r farchnad, gallwn weld bod angen symleiddio prisiau a gwrthdaro. Mae Nyth yn gweithio gyda Chymunedau'n Gyntaf a chafwyd ymateb da. Cynllun cartrefi cynnes yw'r strategaeth cartrefi fforddiadwy, ac mae'n cynnig boeleri i gwsmeriaid, ond dylai pobl gysylltu â Nyth i ddechrau gan y gallwn osod system wresogi gyfan newydd, nid dim ond y boeler.

**Graeme Francis –** yn gyffredinol, ydych chi'n ei gweld yn hawdd neu'n anodd cyrraedd pobl hŷn?

**Lee Parry –** mae pobl hŷn mewn ardaloedd trefol yn haws eu cyrraedd na phobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, sydd bob amser yn anodd. Rydym yn bwriadu targedau rhagor mewn ardaloedd gwledig ond mae angen gwneud mwy.

**Graeme Francis -** a fyddai'n ddefnyddiol cael help gan bartneriaid / cyrff eraill?

**Lee Parry –** byddai, rhowch wybod i mi os hoffai unrhyw gyrff gydweithio â ni.

**Andrew Bell –** o ran y porthol ar-lein, gall hyn fod yn rhwystr i'r rhai nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd. Rydym wrthi'n asesu canolfannau cymuned mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol a byddwn yn cwblhau'r wybodaeth ddiwedd mis Mawrth.

**Nancy Davies –** yn 2011/12, ysgrifennodd Fforwm Pensiynwyr Cymru at y cyflenwyr ynni i sôn am dlodi tanwydd er mwyn ceisio gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r broblem (cynhyrchwyd taflen a ddosbarthwyd o amgylch yr ystafell (ynghlwm)). Fel rhan o'r datblygiadau diweddaraf, bydd Ofgem yn symleiddio'u prisiau ac yn lleihau nifer y tariffau - rydym yn falch iawn o'r canlyniadau hyn.

**Phil Evans**? – hoffai ADSS Cymru ymuno â chyrff eraill i drafod sut y gallwn fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy weithio mewn partneriaeth. Mae'r rhain yn faterion cymhleth ond gall Gofal a Thrwsio symleiddio'r sefyllfa, a rhannu rhagor o wybodaeth am dlodi tanwydd gyda phobl hŷn sy'n agored i niwed.

**Neil Williams** – rydym yn gweld llawer iawn o dlodi tanwydd drwy ein gwaith achos. Rydym yn darparu gwasanaethau i'w liniaru ac yn cyfeirio 10% at Nest.

**Mark Isherwood AC** – Mae Gofal a Thrwsio yn hanfodol – mae Nyth ar gael i rannu gwybodaeth neu i anfon cynrychiolydd i'ch ardal. Nid yw hyn yn costio dim.

**Mike Hedges AC** – Mae Nyth a Gofal a Thrwsio wedi gweithio'n dda i rannu gwybodaeth am dlodi tanwydd a chynorthwyo â materion ynni. Mae SWALEC yn Abertawe wedi helpu pobl i gael gwared ar ddyledion. Rydym yn awyddus i barhau i ehangu'r arfer da hwn.

Cytunodd **Mike Hedges AC** ag argymhellion y cyfarfod (gweler isod).

Daeth y cyfarfod i ben.

**Argymhellion / camau i'w cymryd**

- Bydd y grŵp trawsbleidiol yn ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn a ddylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Grŵp Cynghori Gweinidogol
  - Bydd Mike Hedges yn cyfarfod â Mark Isherwood i drafod sut y gall y ddau grŵp trawsbleidiol (Pobl Hŷn a Heneiddio a Thlodi Tanwydd) weithio mewn partneriaeth
  - Awgrymwyd y dylid cynnwys incwm isel ar agenda'r cyfarfod nesaf
  - Argymhellodd Mike Hedges y dylid gwahodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gyfarfod mewn 12 mis.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7 Mai 2014